

TRIBIWNLYS PRISIO CYMRU

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2019-2020

Tabl Cynnwys

Adrannau	Tudalen
Rhagair gan Lywydd y Tribwnlys – Carol Cobert	3
Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr – Andrew Shipsides	4
1. Swyddogaeth a sgôp y Tribiwnlys	5
2. Llwyth gwaith, apeliadau pellach a chwynion	6
3. Aelodaeth a hyfforddiant	8
4. Y Cyngor Llywodraethu ac adolygu'r strategaeth i'r dyfodol	9
5. Staffio	10
6. Cyllid	11
7. Effaith COVID-19 a'r ymateb iddo	13

Datganiadau wedi'u llofnodi gan y Prif Weithredwr (sy'n ofynnol yn Nogfen Fframwaith Tribiwnlys Prisio Cymru – Llywodraeth Cymru)

Datganiad Llywodraethu	15
Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu	16

Atodiadau

A	Niferoedd y cyfarfodydd tribiwnlys a'r achosion a restrwyd	18
B	Llwyth gwaith – ffigurau cymharol y pum mlynedd ddiwethaf	19
C	Data Clirio Apeliadau 2019/2020	20
Ch	Dangosyddion Perfformiad Allweddol – tabl canlyniadau	21
D	Diffiniadau Dangosyddion Perfformiad Allweddol diwygiedig ar gyfer 2020/21	22
Dd	Dadansoddiad oedran a rhywedd yr aelodaeth (ar 31 Mawrth 2020)	23
E	Gwariant Tribiwnlys Prisio Cymru 2019/2020	24
F	Cyfanswm gwariant – ffigurau cymharol y saith mlynedd ddiwethaf	25
Ff	Strwythur y Sefydliad	26

Rhagair gan Lywydd Tribiwnlys Prisio Cymru

Mae'n bleser gen i adrodd fod y Tribiwnlys wedi cael blwyddyn gadarnhaol arall yn cydnherthu'r newidiadau a gyflwynwyd yn dilyn yr ailstrwythuro a ddechreuodd yn 2017.

Mae'r aelodaeth wedi lleihau eto eleni, ac rydym ni bellach yn gyffyrddus o dan yr uchafswm o 105 a ganiateir yn ein rheoliadau llywodraethu. Fel bob amser, rwy'n ddiolchgar i'r aelodau hynny a wasanaethodd y Tribiwnlys yn flaenorol ond sydd wedi penderfynu peidio ag adnewyddu eu haelodaeth. Rwy'n parhau'n ddiolchgar i'r aelodau hynny sy'n parhau i wasanaethu pobl Cymru'n briodol yn gwbl ddi-dâl. Byddai'r gwasanaeth yn costio llawer mwy i'r coffrau cyhoeddus onibai am y gwirfoddoli hael yma.

Er bod gwirfoddoli wedi cadw costau'r gwasanaeth yn isel erioed, rydym ni wedi gwneud arbedion arwyddocaol iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'n dod yn amlwg ein bod yn dod at y terfyn ac nad yw'n gynaliadwy amsugno costau cynyddol yn barhaus gyda chyllideb sefydlog neu sy'n lleihau. Ni fu ymgynghori gyda'r Tribiwnlys ynghylch ei anghenion cyllidebol am sawl blwyddyn erbyn hyn. Cyflwynwyd swm penodol iddo yn union cyn y flwyddyn ariannol newydd, heb unrhyw drafodaethau manwl ymlaen llaw. Mae angen i hyn newid yn y dyfodol. Darllenwch adran Cyllid yr adroddiad hwn am ragor o fanylion.

Bu'n flwyddyn dawel o ran llwyth gwaith. Nid oherwydd fod nifer yr apeliadau'n dod i mewn wedi bod yn isel (er bod y nifer yn is na blynyddoedd blaenorol) ond oherwydd fod Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi bod yn cyflawni gwaith arall sydd wedi lleihau ei gallu i ymdrin ag apeliadau, sef paratoi Rhestrau Ardrethu 2021. Cytunwyd ar hyn rhwng Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Llywodraeth Cymru ac mae'r Tribiwnlys yn deall y rhesymau'n llwyr ac wedi addasu ei lefelau rhestru i hwyluso'r gwaith hwn. Mae hyn yn esbonio pam fod cyfanswm yr apeliadau wedi'u clirio ychydig o dan 4,700 eleni o'i gymharu gydag ychydig dros 6,500 y llynedd. Rydym ni'n rhagweld dychwelyd i niferoedd uwch y flwyddyn nesaf. Yn ffodus, gan fod nifer y ceisiadau newydd yn is eleni, mae nifer yr achosion wedi'u cario trosodd i'r flwyddyn nesaf yn ddim ond 250 yn fwy na'r nifer ar ddechrau'r flwyddyn. Nid oes unrhyw ôl-groniad arwyddocaol wedi ffurfio eleni, er gwaethaf Asiantaeth y Swyddfa Brisio'n canolbwyntio ar yr Ailbrisio a sgîl effaith hyn ar restrïadau'r Tribiwnlys.

Fel bob amser rydw i'n yn hynod o ddiolchgar i staff y Tribiwnlys am eu holl waith caled yn cefnogi aelodaeth y Tribiwnlys ac yn cynorthwyo a gwasanaethu defnyddwyr y Tribiwnlys.

Diolch i bawb sy'n ymwneud â'r gwasanaeth.

Carol Cobert

Llywydd – Tribiwnlys Prisio Cymru

Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr

Fel y nododd y Llywydd yn Rhagair yr adroddiad hwn, bu'r flwyddyn hon yn dawel yn weithredol. Mae'r Llywydd yn esbonio pam y bu felly, a rhoir rhagor o fanylion yng nghorff yr adroddiad hwn.

Er mai dyna'r sefyllfa, gwnaeth wythnos olaf y flwyddyn daflu rhywbeth cwbl annisgwyl at y Tribiwnlys – ac yn wir at yr holl sefydliadau eraill ledled y wlad; sef cyfnod clo trwy'r Deyrnas Unedig mewn ymateb i bandemig COVID-19. Yn y dyddiau'n arwain at ddyddiad dechrau swyddogol y cyfnod clo roedd y llywodraeth yn argymhell yn gynyddol y dylid cyflwyno gweithio o gartref lle bynnag y bo'n bosibl. Roedd y Tribiwnlys mewn sefyllfa dda i ymateb i hyn a, hyd yn oed cyn i Brif Weinidog y Deyrnas Unedig wneud y cyhoeddiad swyddogol am y cyfnod clo mewn darllediad teledu ddydd Gwener, 20 Mawrth, roedd y Tribiwnlys wedi sicrhau fod gan ei holl staff liniaduron gyda'r holl feddalwedd angenrheidiol i gysylltu gyda'n systemau Technoleg Gwybodaeth, sydd oll wedi'u seilio yn y cwmwl. Gwnaeth hyn ganiatâu trosglwyddiad llyfn i weithio o gartref i'n holl staff a sicrhau fod defnyddwyr y tribiwnlys yn medru parhau i gysylltu gyda ni'n hawdd.

Serch hynny, waeth pa mor dda oedd ein trosglwyddiad i weithio o gartref, nid oedd modd peidio â chanslo ein gwarantawiadau tribiwnlys wedi'u trefnu ar gyfer yr wythnosau dilynol. Bydd aildechrau cynnal gwarantawiadau traddodiadol yn dibynnu ar sut y bydd y cyfyngiadau'n cael eu llacio dros amser. Fodd bynnag, er mwyn gwneud peth cynnydd o ran y llwyth gwaith, gwnaeth staff y tribiwnlys ddechrau cysylltu â phartion i weld a oeddynt yn barod i'w hapêl gael ei thrin ar sail gwaith papur. Cymharol araf fu'r ymateb i hyn i ddechrau, ond mae rhai wedi manteisio ar y cynnig. Rydym ni wrthi'n ymchwilio ar hyn o bryd i'n dewisiadau o ran cynnal gwarantawiadau trwy gyfrwng fideo gynadledda. Yn ddiamau bydd y modd y gwnaeth pandemig COVID-19 effeithio ar y Tribiwnlys yn cael ei gofnodi'n llawn yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

Serch hynny, o ran y flwyddyn dan sylw, mae'r adroddiad hwn yn cofnodi ei bod yn flwyddyn o gynnydd cadarn, er yn ddistawach nag arfer o ganlyniad i'r cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio i'r Asiantaeth ganolbwyntio ei hadnoddau ar yr ailbrisio ardrethu annomestig ar gyfer 2021. Mae'r adroddiad a ganlyn yn nodi'r manylion.

Andrew Shipsides
Prif Weithredwr – Tribiwnlys Prisio Cymru

1 Swyddogaeth a sgôp y Tribiwnlys

1.1 Ni newidiodd rôl y tribiwnlys eleni. Mae'n parhau i ddarparu gwasanaeth am ddim y gall trethdalwyr y dreth gyngor a'r rhai sy'n talu ardrethi busnes yng Nghymru gyfeirio unrhyw anghydfod am agweddau o'u hatebolrwydd ato. Yn bennaf yr agweddau hyn yw:

- Prisiad yr eiddo a ddefnyddir i gyfrifo'r atebolrwydd ardrethi neu'r dreth gyngor.
- P'un ai yw unigolyn yn atebol i dalu'r dreth gyngor.
- P'un ai yw'r atebolrwydd dreth gyngor a gyfrifwyd yn gywir, gan ystyried y gwahanol ddisgowntiau, eithriadau, lleihad a phremiwmiau sy'n berthnasol dan amgylchiadau penodol.

Cyn dod â mater i sylw'r tribiwnlys mae'n rhaid i'r achwynydd fod wedi ceisio datrys y mater gyda'r corff a wnaeth y penderfyniad dechreuol yn gyntaf. Yn achos prisio eiddo, y corff hwnnw yw Asiantaeth y Swyddfa Brisio (sy'n asiantaeth weithredu Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi). Ac o ran materion atebolrwydd y dreth gyngor, y corff yw'r awdurdod llywodraeth leol a gyflwynodd y bil treth gyngor (a adnabyddir fel yr awdurdod bilio).

1.2 Ceir mathau eraill o apêl a gyfeirir at y tribiwnlys yn achlysurol, yn ymwneud â:

- Hysbysiadau cwblhau a gyflwynwyd gan awdurdodau bilio gyda'r nod o sefydlu dyddiad y penderfynir bod eiddo wedi'i gwblhau at ddibenion ardrethu a'r dreth gyngor.
- Cyflwyno cosbau gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar unigolion y penderfynodd Asiantaeth y Swyddfa Brisio eu bod wedi methu â darparu gwybodaeth y mae'n ofynnol iddynt ei rhoi yn gyfreithiol at ddibenion prisio eiddo.
- Asesiad ardrethi draeniad a wneir gan fwrdd draenio lleol.

1.3 Mae gan benderfyniadau'r tribiwnlys yn yr holl faterion hyn rym cyfreithiol. Gall y tribiwnlys adolygu rhai o'i benderfyniadau ardrethu a'r dreth gyngor os yw parti yn gwneud cais, dan amgylchiadau penodol cyfyngedig. Fel arall, caiff partïon anfodlon herio'r penderfyniadau yn yr uwch lysoedd. Gall prisio ar gyfer materion ardrethu gael ei ystyried yn y Tribiwnlys Haen Uwch (Siambur Tiroedd) i ddechrau, a gall materion y dreth gyngor gael eu hysytyried yn yr Uchel Lys i ddechrau (mater yn ymwneud â'r gyfraith yn unig).

2 Llwyth gwaith, apeliadau pellach a chwynion

Llwyth gwaith

- 2.1 Rhestrodd y tribiwnlys 4,183 o achosion ardrethu eleni; 687 o achosion prisio'r dreth gyngor a 118 o fathau eraill o apêl (materion atebolrwydd y dreth gyngor yn bennaf, yn cynnwys apeliadau'r cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor). Rhwir manylion nifer y cyfarfodydd tribiwnlys a'r achosion a restrwyd yn Atodiad A.
- 2.2 Cafodd 3,594 o apeliadau ardrethu eu clirio; 977 apêl prisio'r dreth gyngor; a 124 o apeliadau eraill (yn cynnwys ceisiadau am adolygiad). Rhwir manylion yn Atodiad B, sy'n cyflwyno ffigurau cymharol yn erbyn y pedair blynedd ddiwethaf, ac Atodiad C sy'n darparu manylion am ganlyniadau eleni.
- 2.3 O'r 555 penderfyniad ardrethu a gyhoeddwyd, cyflwynwyd ceisiadau i adolygu'r penderfyniad yn achos 19 ohonynt. Bu 18 o'r rhain yn llwyddiannus, yn bennaf ar y sail bod yr apelyddion wedi methu ag ymddangos yn y gwrandawladau a drefnwyd oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth. Cafodd y penderfyniadau yn yr achosion hyn eu rhoi i'r naill ochr, a chafodd yr apeliadau eu gwrandawro eto. O'r 235 o benderfyniadau prisio'r dreth gyngor, cyflwynwyd ceisiadau i adolygu 6 ohonynt (gyda 5 yn llwyddiannus). Cafwyd dau gais i adolygu o ran materion atebolrwydd y dreth gyngor (ni fu yr un ohonynt yn llwyddiannus).
- 2.4 Mae nifer yr apeliadau ardrethu a restrwyd ac a gliriwyd yn ystod y flwyddyn yn arwyddocaol is nag yn ystod "blwyddyn arferol". Mae hyn o ganlyniad i gytundeb rhwng Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Llywodraeth Cymru yn caniatáu i Asiantaeth y Swyddfa Brisio ganolbwyntio adnoddau sylweddol ar yr ymarfer Ailbriso sy'n ofynnol i gynhyrchu rhestrau ardrethu 2021. Roedd yr ymarfer hwn yn brif nodwedd gwaith Asiantaeth y Swyddfa Brisio trwy gydol y flwyddyn ac felly'n cyfyngu ar faint o waith apêl yr oedd yn medru ei chyflawni. Gwnaeth y cytundeb rhwng Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Llywodraeth Cymru bennu ffigur clirio o 3,500 apêl (o'i gymharu gyda ffigur blynyddol mwy nodweddiadol o 6,500 achos). Gwnaeth y Tribiwnlys hwyluso'r addasiad hwn trwy leihau nifer yr achosion a restrwyd. Serch hynny roedd y nifer a restrwyd yn uwch na ragwelwyd yn y pen draw, gan fod nifer sylweddol o achosion wedi'u gohirio yn dilyn eu rhestru'n ddechreuol. Roedd y gohiriadau hyn o ganlyniad i bartïon ddim mewn sefyllfa i gyflwyno achos llawn yn y gwrandawriad a drefnwyd a chaniatawyd eu gohirio ar sail ceisiadau ar y cyd i'r perwyl hynny. Barn y Tribiwnlys yw fod y ceisiadau hyn mewn sawl achos o ganlyniad i'r adnoddau prin yn Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Cafodd llawer o'r achosion hyn eu hailrestru (ac mewn rhai achosion eu hailrestru sawl gwaith). Cafodd nifer arwyddocaol y gohiriadau ac ailrestru effaith trwm ar yr alldro o ran Dangosydd Perfformiad Allweddol y Tribiwnlys o ran rhestr apeliadau ardrethu. (Edrychwch ar Atodiad Ch i weld canlyniadau holl Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y Tribiwnlys.)
- 2.5 Gwnaeth y tribiwnlys dan-gyflawni o ran ei Ddangosydd Perfformiad Allweddol ar gyfer rhestru apeliadau ardrethu o 19.2%. Roedd hyn oherwydd y cafwyd cyfran uwch o ohiriadau eleni, a arweiniodd at **ailrestru** achosion ar ôl yr amserlen wyth wythnos a nodir yn y diffiniad Dangosydd Perfformiad Allweddol.

Nodwyd yr amryfusedd hwn yn niffiniad y Dangosydd Perfformiad Allweddol yn adroddiad blynyddol y llynedd. Ar sail y cyfnod amser sy'n ofynnol i addasu ein systemau Technoleg Gwybodaeth roedd yn hysbys y byddai hyn yn nodwedd yn ffigurau'r flwyddyn hon. Mae diffniad y Dangosydd Perfformiad Allweddol wedi'i ailddiffinio yn awr i fesur y rhestru am y tro cyntaf yn unig, er mwyn dangos pa mor ymatebol yw'r Tribiwnlys wrth ymdrin ag apeliadau ar ôl diwedd cyfnod neilltuedig Asiantaeth y Swyddfa Brisio i geisio datrys achosion. Dangosir y diffiniad newydd yn Atodiad D.

Apeliadau pellach

- 2.6 Cyflwynwyd dwy apêl statudol ac un cais am ganiatâd i ofyn am adolygiad barnwrol gan un apelydd o ran materion atebolrwydd y dreth gyngor a ddaeth gerbron y Tribiwnlys. Ni pharhawyd gydag un apêl statudol, cynhaliwyd gwrandawriad ar gyfer yr un arall a chyfeiriwyd y mater yn ôl i'r tribiwnlys a gwrthodwyd y cais am ganiatâd i ofyn am adolygiad barnwrol.
- 2.7 Cyflwynwyd apêl ynghylch un penderfyniad ardrethu i'r Uwch Dribiwnlys (Siambwr Tiroedd). Nid yw'r mater wedi'i benderfynu hyd yma.

Cwynion

- 2.8 Ni chyflwynwyd unrhyw gwynion yn erbyn y Tribiwnlys i Ombwdmson Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru eleni.

3 Aelodaeth a hyfforddiant

Aelodaeth

- 3.1 Lleihaodd yr aelodaeth o 93 i 85 yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i ymadawiadau naturiol. Roedd y nifer yma'n ddigonol i fodloni llwyth gwaith is y Tribiwnlys eleni, ac mae Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys yn rhagweld y bydd yn parhau i fod yn ddigonol pan fydd y llwyth gwaith yn dychwelyd i lefel arferol yn ystod 2020/21. Mae'n annhebygol y bydd angen i'r Tribiwnlys recriwtio aelodau newydd yn ystod y ddwy flynedd nesaf.
- 3.2 Mae'r proffil oedran a rhywedd wedi parhau'r un fath yn ei hanfod ers y llynedd. Mae hyn yn ddisgwyliedig, gan nad yw'r Tribiwnlys yn recriwtio'n weithredol ar hyn o bryd. Mae'r gymhareb gwrywod i fenywod yn parhau ar 3:1. Pan fydd y Tribiwnlys yn dechrau recriwtio eto bydd yn ymdrin yn gadarnhaol gyda materion rhywedd, oedran ac amrywiaeth. Gweler Atodiad Dd am fanylion y proffil cyfredol.

Hyfforddiant

- 3.3 Cynhaliwyd digwyddiad hyfforddiant aelodau ym mis Gorffennaf (Penybont-ar-Ogwr) a Medi (Llangollen). Roedd cyfran fawr o'r digwyddiadau yn dribiwnlys enghreifftiol a gyflwynwyd gan staff y Tribiwnlys, lle roedd popeth a allai fynd o chwith yn cael ei gyflwyno felly, er mwyn gweld sut y byddai'r aelodau'n ymdrin â'r sefyllfaoedd. Bu'n ddigwyddiad dysgu effeithiol, rhyngweithiol iawn a fwynhawyd yn fawr. Cynhaliwyd cynhadledd Cadeiryddion yn Llandrindod ym mis Hydref.

4 Y Cyngor Llywodraethu ac adolygu'r strategaeth i'r dyfodol

- 4.1 Mae datganiad llywodraethu'r tribiwnlys ar dudalen 15 yr adroddiad hwn.
- 4.2 Cafodd Llywydd y Tribiwnlys, Miss Carol Cobert, ei hailethol i'r swydd ar ddiwedd y flwyddyn hon. Mae cyfnod y penodiad newydd yn parhau tan 31 Mawrth 2023.

- 4.3 Y Llywydd sy'n arwain y Cyngor Llywodraethu. Aelodau eraill y Cyngor yw:

Mr Rheinallt Evans	-	Cynrychiolydd Cenedlaethol
Mr Rhys Prytherch	-	Cynrychiolydd Cenedlaethol
Mr David Subacchi	-	Cynrychiolydd Cenedlaethol
Mr Russell Lawson	-	Penodai Llywodraeth Cymru

- 4.4 Y Cyngor Llywodraethu sy'n pennu cyfeiriad strategol y Tribiwnlys, a chyfarfu bedair gwaith yn ystod y flwyddyn (Mehefin, Hydref, Rhagfyr a Mawrth). Gwnaeth adolygu'r cynllun strategol a luniwyd yn 2017/18 yn ystod y flwyddyn. Roedd trydydd cam y cynllun (ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20) yn tynnu sylw at gyfle i weithredu cymal torri o ran les y swyddfeydd a ddefnyddir gan y Tribiwnlys yng Nghasnewydd petai modd dod o hyd i leoliad mwy cost effeithiol yn yr ardal. Fodd bynnag, roedd ymchwiliadau yn ystod chwarter terfynol 2018/19 a dechrau 2019/20 wedi dangos nad oedd y rhent cyfredol yn ormodol ac na ellid cyfateb y cyfleusterau presennol (yn cynnwys darpariaeth maes parcio da) a lleoliad eithriadol o dda (wrth ymyl traffordd yr M4 a phrif orsaf reilffordd Casnewydd). O ganlyniad ni weithredwyd y cymal torri. Felly bydd y les yn parhau tan fis Hydref 2024.
- 4.5 Yn sgîl y penderfyniad hwn penderfynodd y Cyngor Llywodraethu gynnwys ymchwil manylach i'r dewis gweithio o gartref i staff nad ydynt wedi'u lleoli yn swyddfa Casnewydd ar hyn o bryd yng nghanam pedwar ei gynllun strategol (2020/21). Mae'r staff hyn wedi'u lleoli mewn mannau wedi'u rhentu yn adeiladau Llywodraeth Cymru yn Abertawe a Chyffordd Llandudno. Mae nifer y staff wedi lleihau dros amser, wrth i'r gwasanaethau cymorth gweinyddol canolog gael eu lleoli yng Nghasnewydd. Roedd cam tri wedi clustnodi cau posibl adeilad Llywodraeth Cymru yn Abertawe (Penllergaer) ac y gallai gweithio o gartref fod yn bosibilrwydd mewn ymateb i hyn; ond ni ddigwyddodd y cau, felly nid oedd gweithio o gartref yn ddewis a ystyriwyd yn weithredol ar yr adeg hynny. Bydd yr opsiwn hwn yn cael ei ymchwilio'n drylwyr yn ystod 2020/21 o ran Abertawe a Chyffordd Llandudno, gyda'r nod o wneud arbedion ar wariant ystadau'r Tribiwnlys yn 2021/22. Adroddir am y cynnydd o ran y diwygiad hwn i gynllun strategol y Tribiwnlys yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

5 Staffio

- 5.1 Dechreuodd y flwyddyn gyda 15 swydd amser llawn (3 yn y Tîm Rheoli Gweithredol, 8 yn y Tîm Clercod Tribiwnlys a 4 yn y Tîm Cymorth Gweinyddol) [Dangosir diagramau strwythur y sefydliad yn Atodiad Ff.] Fodd bynnag, dewisodd un o'r Tîm Cymorth Gweinyddol leihau ei horiau gwaith yn ystod y flwyddyn yn dilyn dychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod mamolaeth, gyda'r canlyniad fod y Tribiwnlys yn gweithredu gyda 14.6 swyddog o fis Mai ymlaen. Nid oedd angen recriwtio staff asiantaeth na phenodi staff o gofio'r lleihad dros dro yn y llwyth gwaith yn ystod y flwyddyn hon (fel yr esboniwyd yn adran 2 uchod). Fel y rhagwelwyd yn adroddiad y llynedd, roedd aelod o Dîm Clercod y Tribiwnlys ar gyfnod mamolaeth trwy gydol mwyafrif blwyddyn yr adroddiad hwn. Eto, oherwydd y lleihad hysbys dros dro yn y llwyth gwaith ni fu angen llenwi'r swydd hon. Gwnaeth y Clerc Tribiwnlys dan sylw ddychwelyd i'r gweithle ym mis Ionawr 2020.
- 5.2 Parhaodd nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl ar bedwar trwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, gwnaeth un o'r staff hyn adael i ymuno â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi fel clerc llysoedd ynadon ddiwedd fis Mawrth. Roedd tebygolrwydd cryf y byddai'r lleihad yn yr adnoddau Cymraeg yn cael ei unioni yn dilyn recriwtio Clercod Tribiwnlys dan hyfforddiant, a fwriadwyd ym mis Ebrill. Ni chynhaliwyd y cyfweiliadau a drefnwyd ar gyfer diwedd mis Mawrth oherwydd y cyfnod clo yn y Deyrnas Unedig mewn ymateb i COVID-19 felly roedd gan y Tribiwnlys ddarpariaeth is ar ddiwedd y flwyddyn nag ar ddechrau'r flwyddyn. Gobeithir unioni'r sefyllfa yn y flwyddyn i ddod.
- 5.3 Fel y cofnodwyd yn adroddiad blynyddol y llynedd, roedd y bwriad i recriwtio clercod dan hyfforddiant yn ymateb i'r bygythiad i barhad busnes yn sgîl proffil oedran cynyddol y staff cyfredol. Y bwriad gwreiddiol oedd recriwtio dau glerc dan hyfforddiant, ond pan wnaeth y Clerc Tribiwnlys a adawodd i ymuno â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi ein hysbysu am ei ymddiswyddiad, newidwyd hyn i dri. Rhagwelir ailddechrau a chwblhau'r broses recriwtio yn 2020, pan fydd y darlun yn gliriach o ran effaith COVID-19 a bod y cyfyngiadau symud cyfredol wedi pallu. Rhair rhagor o fanylion am effaith cyfyngiadau COVID-19 ar y Tribiwnlys yn adran 7.
- 5.4 Nifer cyfartalog y dyddiau absenoldeb salwch fesul pob aelod o staff eleni oedd 11.85 – gan ystyried yr holl absenoldebau tymor hir. Y cyfartaledd ar gyfer 80% canolog y staff (h.y. cael gwared o'r brig a'r gwaelod o'r amrediad llawn), fel sy'n ofynnol gan y Dangosydd Perfformiad Allweddol perthnasol, oedd 6.50 diwrnod (sy'n nesau at deirgwaith ffigur y flwyddyn flaenorol ac yn hollol wahanol i batrwm blynyddoedd cynharach). Roedd hyn o ganlyniad i'r sefyllfa eithriadol o dri aelod o'n tîm staff bach o 15 yn cael cyfnod absenoldeb salwch o fwy na 40 diwrnod. Roedd ardystiad meddygol ar gyfer pob un o'r cyfnodau salwch hyn. Ni wnaeth mwyafrif y staff eraill gael unrhyw ddiwrnodau absenoldeb salwch.

6 Cyllid

- 6.1 Roedd gwariant y tribiwnlys yn ystod y flwyddyn ychydig o dan £1,071,000 (o gyllideb gwerth £1,074,000). Gwariwyd 67% ar gostau staffio (yr un faint â'r llynedd) a 33% ar gostau cynnal gweithredol eraill (yn cynnwys 3.27% ar ail ran-daliad i ad-dalu benthyciad a drefnwyd yn 2017/18 i dalu costau ailstrwythuro [dileu swyddi]). Dangosir y cyfrif refeniw yn Atodiad E. Nid oedd unrhyw ddyraniad na gwariant cyfalaf.
- 6.2 Mae Atodiad F yn dangos yr arbedion cynyddol a wnaed gan y tribiwnlys (flwyddyn ar ôl blwyddyn dros y saith mlynedd ddiwethaf). Mae'r Tribiwnlys wedi gwario llai flwyddyn ar ôl blwyddyn ymhob un o'r saith mlynedd er gwaethaf chwyddiant cyflogau'n parhau a chwyddiant prisiau defnyddwyr cyffredinol o ran nwyddau a gwasanaethau. Fodd bynnag eleni mae'r arbedion cymharol (gan ddefnyddio 2013/14 fel llinell sylfaen) yn 0.1% yn unig yn erbyn y llynedd. Mae'r sgôp i wneud arbedion yn gwastatáu. Ein rhagfynegiadau ar gyfer 2020/21 yw y byddwn yn medru gweithredu yn unol â'r gyllideb wastad a roddwyd i ni gan Weinidogion Cymru (£1,074,000), ond mae'n annebygol y byddwn yn medru amsugno pwysau chwyddiant wedi hynny. Hyd yn oed pe byddem yn sicrhau arbedion o ran gwario ar ystadau yn 2021/22 trwy adael ein swyddfeydd yn adeiladau Llywodraeth Cymru a chyflwyno gweithio o gartref (fel y disgrifiwyd yn adran 4), byddai'r arbedion hyn oddeutu £25,000 yn unig. Mae angen cynnal arfarniad ymgynghorol a realistig o anghenion y Tribiwnlys gan dîm noddi'r Tribiwnlys yn Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllideb 2021/22. Ni chynhaliwyd arfarniad ymgynghorol o'r fath ers 2012/13 pan luniwyd cyllideb 2013/14, sydd wedi gweithredu fel ein llinell sylfaen ystadegol ers hynny.

6.3 Tabl

Mae'r tabl isod yn dangos y pwysau chwyddiant mae'r Tribiwnlys wedi medru ei amsugno yn ei gyllideb sy'n lleihad ers y llinell sylfaen yn 2013/13. Ar sail cronus syml (yn hytrach na sail cyfansawdd a fyddai'n rhoi ffigur ychydig uwch, ond cywirach) mae'r Tribiwnlys wedi llwyddo i amsugno chwyddiant cyflogau o dros 8% a chwyddiant economaidd cyffredinol o bron i 9%.

Blwyddyn	Chwyddiant cyflogau	Cyfradd flynyddol Mynegai Prisiau Defnyddwyr	Gwir wariant y gyllideb
2014/15	0%	0%	1,305,000
2015/16	2.2%	0.5%	1,249,000
2016/17	1.0%	2.3%	1,203,000
2017/18	1.0%	2.5%	1,111,000
2018/19	2.0%	1.9%	1,072,000
2019/20	2.0%	1.5%	1,071,000

Y ffigur chwyddiant cyflogau yw'r dyfarniad cyflog i staff Tribiwnlys Priso Cymru.¹ Y gyfradd Mynegai Prisiau Defnyddwyr yw cyfradd Mynegai Prisiau Defnyddwyr blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Mawrth bob blwyddyn. Mae chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr cyffredinol yn berthnasol i wariant ac eithrio staffio (heb gynnwys rhent swyddfa Casnewydd sydd wedi aros yn unfath dros y cyfnod).

¹ Mae'r dyfarniad cyflog blynyddol wedi'i gysylltu'n gytundebol gyda'r Cytundeb Cyflog Cenedlaethol ar gyfer Staff Llywodraeth Leol.

7 Effaith COVID-19 a'r ymateb iddo

- 7.1 Fel y nodwyd yn adran 5 uchod, gwnaeth cyfnod clo'r Deyrnas Unedig mewn ymateb i COVID-19 effeithio ar gynlluniau'r Tribiwnlys i recriwtio Swyddogion Tribiwnlys dan hyfforddiant ar ddiwedd mis Mawrth.
- 7.2 Gwnaeth y cyfyngiadau symud achosi i ni ganslo'r gwrandawiadau tribiwnlys a drefnwyd ar gyfer gweddill mis Mawrth a mis Ebrill. Hysbyswyd yr holl bartïon am y canslo erbyn diwedd y diwrnod busnes ar ddydd Gwener, 20 Mawrth.
- 7.3 Cafodd holl staff y Tribiwnlys eu trosglwyddo i weithio o gartref wedyn. Yn ffodus roedd gan holl aelodau Tîm Clercod y Tribiwnlys a'r Tîm Rheoli Gweithredol liniaduron a oedd yn cysylltu gyda'n systemau cwmwl. Mae ein holl systemau Technoleg Gwybodaeth wedi'u seilio'n y cwmwl ac felly'n hygyrch trwy'r rhyngwyd ers Haf 2018. Roedd y Tribiwnlys hefyd yn meddu ar stoc digonol o liniaduron sbâr i'w rhoi i'r Tîm Cymorth Gweinyddol ar unwaith. Felly nid oedd unrhyw doriad mewn parhad busnes o ran staffio. Mae'r Tribiwnlys yn defnyddio rhaglenni Microsoft 365 ac felly roedd staff yn medru cyfathrebu trwy gyfrwng MS Teams o'r dechrau. Trosglwyddwyd y systemau ffôn yn ein tair swyddfa i wasanaeth ateb lle gellid gadael neges i staff wrando arno. Yn achos swyddfa Casnewydd gellid deialu o bell i gasglu'r negeseuon hyn. Diweddarwyd tudalen hafan gwefan y Tribiwnlys i ddangos neges COVID-19 amlwg, yn nodi fod yr holl wrandawiadau tribiwnlys wedi'u canslo ac y dylid cysylltu gyda'r Tribiwnlys trwy e-bost lle bynnag y bo modd – ac os nad oedd hynny'n bosibl trwy'r gwasanaeth ateb negeseuon ffôn yn swyddfa Casnewydd. Gwnaeth y Tribiwnlys newid i wasanaeth ffôn wedi'i seilio'n y cwmwl yn ddiweddarach, a oedd yn caniatáu ymdrin â galwadau i mewn ac allan trwy'r gliniaduron, a throsglwyddo i'r staff priodol adref lle bynnag yr oeddynt wedi'u lleoli.
- 7.4 Bydd disgrifiad o ymateb y Tribiwnlys i effaith pandemig COVID-19 yn ystod misoedd cyntaf 2020/21 yn cael ei gynnwys yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

Datganiadau

**(fel sy'n ofynnol yn Nogfen Fframwaith Tribiwnlys Prisio Cymru –
Llywodraeth Cymru)**

Datganiad Llywodraethu

Llywodraethir Tribiwnlys Prisio Cymru gan ei Gyngor Llywodraethu, sy'n cynnwys:

- Llywydd y Tribiwnlys
- y tri Cynrychiolydd Cenedlaethol
- ac, os y'i penodir, hyd at dri unigolyn a benodir gan Lywodraeth Cymru.

Rhagnodir y Cyngor a'i gyfansoddiad gan Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 [WSI 2010 Rhif 713 (W69)], fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru (Diwygio) 2017 [WSI 2017 Rhif 941 (W 234)].

Mae'n rhaid i'r Llywydd a'r Cynrychiolwyr Cenedlaethol fod yn aelodau'r Tribiwnlys ac fe'u hetholir gan aelodaeth y Tribiwnlys am gyfnod o dair blynedd. Gallant sefyll i gael eu hailethol ar ddiwedd y cyfnod yn y swydd.

Nodir manylion cydgyfrifoldebau'r Cyngor Llywodraethu, a chyfrifoldebau personol unigol y Llywydd, a chyfrifoldebau unigol pob Cynrychiolydd Cenedlaethol a Phenodai Llywodraeth Cymru yn Nogfen Fframwaith Tribiwnlys Prisio Cymru, a lofnodir dan gymeradwyaeth Ysgrifennydd Cyllid a Llywodraeth Leol y Cabinet gan swyddog Llywodraeth Cymru a Phrif Weithredwr y Tribiwnlys. Mae Prif Weithredwr y Tribiwnlys yn llofnodi ar ran y Tribiwnlys ar ôl derbyn cymeradwyaeth gan y Cyngor Llywodraethu.

Mae Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys yn cynnal ei swyddogaethau mewn modd sy'n gyson ag Egwyddorion Canolbwytio ar Ddinasyddion Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys y Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a nodir gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Pwyllgor Nolan).



Andrew Shippides
Prif Weithredwr Tribiwnlys Prisio Cymru

Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Mae Prif Weithredwr Tribiwnlys Prisio Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod adnoddau ariannol y Tribiwnlys yn cael eu rheoli yn unol â'r egwyddorion a'r gofynion rheolaeth ariannol penodol a nodir yn Nogfen Fframwaith Tribiwnlys Prisio Cymru a dogfennau ariannol Llywodraeth a Chynulliad Cymru a memoranda y cyfeirir atynt yn y Ddogfen Fframwaith.

Mae'r Prif Weithredwr yn atebol yn bersonol i'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol dynodedig yn adran Llywodraeth Cymru sy'n noddi'r Tribiwnlys. Yn ei dro mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yn atebol i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad.

Gall y Prif Weithredwr ddirprwyo gweinyddiaeth o ddydd i ddydd ei gyfrifoldebau i gyflogaeion y Tribiwnlys, ond mae'n parhau'n gyfrifol ac yn atebol yn bersonol amdanynt.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Andrew Shipsides', with a large, stylized flourish extending from the end of the signature.

Andrew Shipsides
Prif Weithredwr Tribiwnlys Prisio Cymru

Atodiadau

- A Niferoedd y cyfarfodydd tribiwnlys a'r achosion a restrwyd**
- B Llwyth gwaith – ffigurau cymharol y pum mlynedd ddiwethaf**
- C Data Clirio Apeliadau 2019/2020**
- Ch Dangosyddion Perfformiad Allweddol – tabl canlyniadau**
- D Diffiniadau Dangosyddion Perfformiad Allweddol diwygiedig ar gyfer 2020/21**
- Dd Dadansoddiad oedran a rhywedd yr aelodaeth (ar 31 Mawrth 2020)**
- E Gwariant Tribiwnlys Prisiau Cymru 2019/2020**
- F Cyfanswm gwariant – ffigurau cymharol y saith mlynedd ddiwethaf**
- Ff Strwythur y Sefydliad**

Nifer y cyfarfodydd tribiwnlys		Nifer yr aelodau yn Nhîm Clercod y Tribiwnlys = 7.2			
Ebrill	9				
Mai	11	20 hyd at ddiwedd Mai	2.78	y clercc	1.39 y clercc y mis
Mehefin	12				
Gorffennaf	15	47 hyd at ddiwedd Gorffennaf	6.53	y clercc	1.63 y clercc y mis
Awst	7				
Medi	14	68 hyd at ddiwedd Medi	9.44	y clercc	1.57 y clercc y mis
Hydref	16				
Tachwedd	15	99 hyd at ddiwedd Tachwedd	13.75	y clercc	1.72 y clercc y mis
Rhagfyr	12				
Ionawr	15	126 hyd at ddiwedd Ionawr	17.50	y clercc	1.75 y clercc y mis
Chwefror	15				
Mawrth	13	154 hyd at ddiwedd Mawrth	21.39	y clercc	1.78 y clercc y mis
CYFANSWM	154				

Achosion a restrwyd	Ardrethi Annomestig 2017	Ardrethi Annomestig cynharach	Ardrethi Annomestig arbenigol	Rhestr y Dreth Gyngor	Atebolrwydd y Dreth Gyngor CTL	Gostyngiad-au'r Dreth Gyngor	Hysbysiad Cwblhau	Adolygu penderfyniad	CYFAN-SWM	Nifer cyfartalog y clercc
Ebrill	83	0	0	0	13	13	1	1	111	15.42
Mai	348	0	0	33	12	0	0	1	394	54.72
Mehefin	267	84	0	73	3	5	0	5	437	60.69
Gorffennaf	259	38	57	57	4	3	1	2	421	58.47
Awst	0	36	0	0	4	2	0	0	42	5.83
Medi	58	118	160	83	1	2	1	4	427	59.31
Hydref	433	5	39	54	5	8	0	7	551	76.53
Tachwedd	406	1	0	75	2	4	1	0	489	67.92
Rhagfyr	349	17	0	72	1	4	0	2	445	61.81
Ionawr	378	2	0	72	5	5	0	2	464	64.44
Chwefror	536	0	3	61	14	0	0		614	85.28
Mawrth	501	0	5	107	2	2	0		617	85.69
CYFANSWM	3618	301	264	687	66	48	4	24	5012	696.11

Llwyth gwaith – ffigurau cymharol y pum mlynedd ddiwethaf: Atodiad B

Mewnbynau apêl a chliriadau'r Tribiwnlys Prisio –y pum mlynedd ddiwethaf

		Prisio Ardrethu Annomestig	Prisio'r Dreth Gyngor	Pob apêl arall
2015-16				
Mewn bwn	Dygwyd ymlaen	2595	581	42
	Derbyniwyd	8719	1796	104
Cliriwyd	Datryswyd gan y partion	1719	1552	59
	Penderfynwyd gan y tribiwnlys	204	312	49
		89%	83%	55%
		11%	17%	45%
2016-17				
Mewn bwn	Dygwyd ymlaen	9391	513	38
	Derbyniwyd	3069	1695	85
Cliriwyd	Datryswyd gan y partion	3323	1282	38
	Penderfynwyd gan y tribiwnlys	277	322	40
		92%	80%	49%
		8%	20%	51%
2017-18				
Mewn bwn	Dygwyd ymlaen	8860	604	45
	Derbyniwyd	7061	1338	120
Cliriwyd	Datryswyd gan y partion	6516	1126	34
	Penderfynwyd gan y tribiwnlys	1291	317	77
		83%	78%	31%
		17%	22%	69%
2018-19				
Mewn bwn	Dygwyd ymlaen	8114	499	54
	Derbyniwyd	6369	1138	95
Cliriwyd	Datryswyd gan y partion	4093	824	22
	Penderfynwyd gan y tribiwnlys	1034	476	58
		80%	63%	28%
		20%	37%	73%
2019-20				
Mewn bwn	Dygwyd ymlaen	9356	337	69
	Derbyniwyd	3986	1037	93
Cliriwyd	Datryswyd gan y partion	3039	742	35
	Penderfynwyd gan y tribiwnlys	555	235	89
		85%	76%	28%
		15%	24%	72%
Dygwyd ymlaen		9748	397	38

Nodiadau:

- Mae'r ffigurau prisio Ardrethu Annomestig a'r Dreth Gyngor yn cynnwys apeliadau yn erbyn Hysbysiadau Annilyd a gyhoeddwyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio.
- Mae "Pob apêl arall" yn cwmpasu: atebolrwydd Treth Gyngor, gostyngiad Treth Gyngor, hysbysiadau cwblhad y Dreth Gyngor ac Ardrethi Annomestig, hysbysiadau cosb y Dreth Gyngor ac Ardrethi Annomestig a'r holl geisiadau ffurfiol i adolygu penderfyniad unrhyw fath o apêl.
- Mae'r apeliadau prisio Ardrethu Annomestig a gliriwyd eleni (2019-20) yn debyg i'r niferoedd a gliriwyd yn 2016-17. Roedd y blynyddoedd hyn yn flynyddoedd lle roedd Asiantaeth y Swyddfa Brisio, dan ei Chytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Llywodraeth Cymru, yn canolbwyntio mwyafrif ei hadnoddau ar lunio Rhestrau Ardrethu newydd. Cytunwyd i leihau'r targedau clirio yn unol â hynny.

Ystadegau Apêl / Appeal statistics

01/04/19 - 31/03/20

Y Dreth Gyngor / Council Tax	D/Y	Derbyniwyd	Datryswyd	Penderfynwyd	C/Y
	B/F	Received	Settled	Decided	C/F
Prisio / Valuation	332	1032	737	235	392
Hysbysiad Annilyys / Invalidity Notice	5	5	5	0	5
Hysbysiad Cosb / Penalty Notice	0	1	1	0	0
Hysbysiad Cwblhad / Completion Notice	1	1	1	1	0
Atebolrwydd / Liability	29	34	12	41	10
Gostyngiad / Reduction	38	29	21	19	27
Adolygiad penderfyniad / Decision reviews	0	9	0	9	0
Cyfanswm / Totals	405	1111	777	305	434

Ardrethu Annomestig / Non-domestic Rating	D/Y	Derbyniwyd	Datryswyd	Penderfynwyd	C/Y
	B/F	Received	Settled	Decided	C/F
Prisio / Valuation 2017	6480	3936	2616	490	7310
Prisio / Valuation 2010	2718	0	356	55	2307
Prisio / Valuation 2005	26	0	0	0	26
Hysbysiad Annilyys / Invalidity Notice (2017)	105	50	66	1	88
Hysbysiad Annilyys / Invalidity Notice (2010)	27	0	1	9	17
Hysbysiad Cosb / Penalty Notice	0	0	0	0	0
Hysbysiad Cwblhad / Completion Notice	1	0	0	0	1
Adolygiad penderfyniad / Decision reviews	0	19	0	19	0
Cyfansymiau / Totals	9357	4005	3039	574	9749

Cyfanswm / Grand totals	9762	5116	3816	879	10183
--------------------------------	------	------	------	-----	-------

Dangosyddion Perfformiad Allweddol – tabl canlyniadau

Atodiad Ch

Mesur perfformiad	Targed 2019/20	Canlyniad 2019/20	Targed 2020/21	Rheswm am unrhyw newid i'r targed / neu ragor o fanylion/gwybodaeth
Cyflwyno hysbysiadau gwrandawriad ardrethu annomestig i bartïon cyn pen 8 wythnos o ddyddiad targed rhaglennu Asiantaeth y Swyddfa Briso	90%	80.2%	Diffiniad Dangosydd newydd (Atodiad D)	3353 o'r 4183 a restrwyd Gwnaeth cynnydd mewn gohiriadau arwain at ailrestru arwyddocaol. Mae ailrestru yn chwyddo'r ffigur cyfanswm a ddefnyddir i gyfrifo'r cyfartaledd.
Apeliadau'r Dreth Gyngor (priso ac atebolrwydd) i'w clirio cyn pen 12 mis o'u cyflwyno i'r tribiwnlys	95%	97.9%	95%	21 achos Priso'r Dreth Gyngor > 12 mis oed 11 Atebolrwydd y Dreth Gyngor a Gostyngiadau'r Dreth Gyngor > 12 mis oed (o 1507 achos ar gael i'w rhestru yn y cyfnod)
Cyflwyno rhesymau ysgrifenedig am y penderfyniad cyn pen 28 diwrnod o ddiwedd y gwrandawriad	95%	95.6%	95%	37 wedi'u cyflwyno ar ôl 28 diwrnod (o 845 o benderfyniadau)
Ceisiadau adolygu penderfyniad Ardrethu Annomestig fel canran yr achosion Ardrethu Annomestig a benderfynwyd	<0.5%	3.44%	<0.5%	19 cais o 555 o benderfyniadau Mae nifer is y penderfyniadau yn y flwyddyn (oherwydd y targed rhestr is) yn debygol o fod wedi llurgunio'r cyfartaledd arferol.
Ceisiadau adolygu penderfyniad Priso'r Dreth Gyngor fel canran yr achosion Priso'r Dreth Gyngor a benderfynwyd	<2.0%	3.0%	<2.0%	7 cais o 235 o benderfyniadau
Ceisiadau adolygu penderfyniad Atebolrwydd Treth Gyngor fel canran yr achosion Atebolrwydd Treth Gyngor a benderfynwyd	<5.0%	3.3%	<5.0%	2 gais o 60 o benderfyniadau (Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor oherwydd, yn dechnegol, maent yn fach o Atebolrwydd Treth Gyngor)
Penderfyniadau a gyfeiriwyd i'r uwch lysoedd	<0.5%	0.3%	<0.5%	3 (o 879 o benderfyniadau)
Penderfyniad lle cafwyd cwyn gan un o'r partïon	<1.0%	sero	<1.0%	
Nifer yr honiadau ar sail rhesymol a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn erbyn y tribiwnlys	sero	sero	sero	
Nifer yr honiadau ar sail rhesymol a gyflwynwyd ynghylch cydymffurfio â'r Safonau Iaith yn erbyn y tribiwnlys	sero	sero	sero	
Y ffigur cyfartalog blynyddol fesul cyflogai o ran absenoldeb salwch i beidio â goresgyn 5 diwrnod gwaith ar gyfer 80% canolog y dosbarthiad staff llawn	<5 diwrnod	6.50	<5 diwrnod	3 aelod staff yn absennol am fwy na 40 diwrnod yr un oherwydd anaf neu salwch cronig wedi'i ardystio'n feddygol

Diffiniadau Dangosyddion Perfformiad Allweddol diwygiedig ar gyfer 2020/21 Appendix E

Nodyn: Diwygiwyd y diffiniad cyntaf [(a)] er mwyn sicrhau fod cyfiri'r rhestriau ar gyfer rhestriau'r tro cyntaf yn unig. Roedd y diffiniad blaenorol yn cynnwys rhestriad am y tro cyntaf ac ailrestru dilynol, a oedd yn mynd yn groes i bwrpas o geisio sefydlu amseroldeb y rhestriau unwaith y bo Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi gorffen ei chyfnod negodi a raglenwyd.

Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol eraill yn parhau yr un fath.

Diffiniadau Dangosyddion Perfformiad Allweddol

- (a) Cyflwyno 95% o hysbysiadau gwrandawriad ardrethu annomestig, yn nghyswllt rhestru apeliadau ardrethu annomestig am y tro cyntaf, i bartïon cyn pen 8 wythnos o ddyddiad targed rhaglennu Asiantaeth y Swyddfa Brisio.¹
- (b) 95% o apeliadau'r Dreth Gyngor (prasio ac atebolrwydd) i'w clirio cyn pen 12 mis o'u cyflwyno i'r tribiwnlys
- (c) Cyflwyno 95% o'r holl resymau ysgrifenedig am y penderfyniad cyn pen 28 diwrnod o ddiwedd y gwrandawriad apêl
- (ch) Ceisiadau adolygu penderfyniad Ardrethu Annomestig i fod yn llai na 0.5% yr achosion Ardrethu Annomestig a benderfynwyd
- (d) Ceisiadau adolygu penderfyniad Prasio'r Dreth Gyngor i fod yn llai na 2.0% yr achosion Prasio'r Dreth Gyngor a benderfynwyd
- (dd) Ceisiadau adolygu penderfyniad Atebolrwydd Treth Gyngor i fod yn llai na 5.0% yr achosion Atebolrwydd Treth Gyngor a benderfynwyd
- (e) Llai na 0.5% i'w cyfeirio i'r uchel lysoedd
- (f) Llai na 1.0% yr holl benderfyniadau yn arwain at gŵyn gan un o'r partïon
- (ff) Dim honiadau ar sail rhesymol a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn erbyn y tribiwnlys
- (g) Dim honiadau ar sail rhesymol a gyflwynwyd ynghylch cydymffurfio â'r Safonau Iaith yn erbyn y tribiwnlys
- (ng) Y ffigur cyfartalog blynyddol fesul cyflogai o ran absenoldeb salwch i beidio â goresgyn 5 diwrnod gwaith ar gyfer 80% canolog y dosbarthiad staff llawn.

¹ Y geiriad blaenorol oedd: *Cyflwyno 90% hysbysiadau gwrandawriad ardrethu annomestig i bartïon cyn pen 8 wythnos o ddyddiad targed rhaglennu Asiantaeth y Swyddfa Brisio.*

Dadansoddiad oedran a rhywedd yr aelodaeth (ar 31 Mawrth 2020)

Oedran	Dan 30		30 -39		40-49		50-59		60-69		70-79		Dros 80	
Rhywedd	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B
Cyfanswm	0	0	0	0	2	1	8	3	14	6	32	11	8	0

Cyfanswm	
G	B
64	21

Canran o gyfanswm yr aelodaeth	0.0%	0.0%	3.5%	12.9%	23.5%	50.6%	9.4%
--------------------------------	------	------	------	-------	-------	-------	------

75.3%	24.7%
-------	-------

Nodyn

- 1 Mae cyfanswm yr aelodaeth wedi lleihau o 93 y llynedd i 85. Mae hyn yn ddigonol ar gyfer y lefelau llwyth gwaith cyfredol.
- 2 Cyfanswm nifer yr aelodau sy'n gwasanaethu fel aelodau awdurdod lleol yw 10. Gwneir trefniadau fel nad yw'r aelodau hyn yn eistedd mewn gwrandawiadau sy'n ymwneud ag ardal eu cyngor.

Gwariant Tribiwnlys Prasio Cymru 2019-2020 (£oedd)

Atodiad E

Valuation Tribunal for Wales Expenditure 2019-2020 (£s)

Maes gwariant Area of expenditure	2019/20		2018/19	
	Swm / Amount	Canran / Percentage	Swm / Amount	Canran / Percentage
Costau staff (ac eithrio pensiynau) Staff costs (excluding pensions)	569,955	53.22%	582,614	54.33%
Costau pensiynau / Pension costs	150,674	14.07%	133,340	12.43%
Is-gyfanswm / Subtotal	720,629	67.29%	715,954	66.76%
Costau swyddfeydd / Office accommodation	172,893	16.15%	123,793	11.54%
Gwariant ar gyfriaduron / Computing	48,151	4.50%	105,966	9.88%
Gweinyddiaeth ganolog / Central administration	38,992	3.64%	36,944	3.45%
Tribiwnlysoedd / Tribunals	25,609	2.39%	29,096	2.71%
Llywodraethu / Governance	2,064	0.19%	1,346	0.13%
Hyfforddiant aelodau / Membership training	16,737	1.56%	12,366	1.15%
Hyfforddiant staff / Staff training	10,787	1.01%	11,860	1.11%
Ad-daliad benthyciad/ Loan repayment	35,000	3.27%	35,000	3.26%
Is-gyfanswm / Subtotal	350,233	32.71%	356,371	33.23%
Cyfanswm / Total	1,070,862		1,072,325	

Nodyn: Gwnaeth benthyciad o £175,000 o raglen *Buddsoddi i Arbed* Llywodraeth Cymru gyllido cynllun dileu swyddi'n wirfoddol yn 2017/18. Mae'r benthyciad yn un di-log ac yn ad-daladwy dros bum mlynedd (ar £35,000 y flwyddyn). Dyma Flwyddyn 2 yr ad-daliadau.

Note: A loan of £175,000 from Welsh Government's *Invest to Save* programme financed a voluntary redundancy scheme in 2017/18. The loan is interest free and repayable over five years (at £35,000 per year). This is Year 2 of the repayments.

Cyfanswm gwariant – ffigurau cymharol y saith mlynedd ddiwethaf

Total expenditure – last seven years' comparable figures

Blwyddyn ariannol	Cyfanswm gwariant blynyddol (£)	Canran arbedion o'i gymharu gyda 2013/14	Costau staffio blynyddol (£)	Canran y cynnydd neu lleihad ar y flwyddyn flaenorol	Costau cynnal ac eithrio staffio (£)	Canran y cynnydd neu lleihad ar y flwyddyn flaenorol
Financial year	Total annual spend (£)	Percentage saving compared to 2013/14	Annual staff costs (£)	Percentage increase or decrease on previous year	Non-staffing running costs (£)	Percentage increase or decrease on previous year
2013-14	1,358,330		811,711		546,619	
2014-15	1,305,586	3.88%	826,208	+1.79%	479,378	-12.30%
2015-16	1,249,787	7.99%	839,169	+1.57%	410,618	-14.34%
2016-17	1,203,584	11.39%	843,787	+0.55%	359,796	-12.38%
2017-18	1,111,856	18.15%	803,889	-4.73%	307,967	-14.41%
2018-19	1,072,325	21.06%	715,954	-10.94%	356,371	+15.72%
2019-20	1,070,862	21.16%	720,629	+0.65%	350,233	-1.72%

Nodiadau


Mae'r tabl uchod yn gofnod o'r arbedion a gyflawnwyd dros y saith mlynedd ddiwethaf. Mae'r gwariant wedi gwastatáu ar ôl sawl blwyddyn o arbedion blynyddol mawr.

Notes


The above table is a record of savings achieved over the last seven years. Expenditure has plateaued after several years of major annual savings.

Strwythur y sefydliad

Strwythur Cyffredinol



Cyfansoddiad y Cyngor Llywodraethu



Strwythur Staffio

